***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 433 (Cy.62)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir Powys) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Chwefror 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *18 Chwefror 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2011* |

Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 8(1) o Atodlen 8 a pharagraff 3(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**).

Mae Cyngor Sir Powys wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan y pwerau hyn mewn cysylltiad â rhan o'i ardal.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu Dyfed Powys yn unol â gofynion paragraffau 8(3) o Atodlen 8 a 3(4) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir Powys) 2011 a daw i rym ar 1 Ebrill 2011.

### Dynodi ardal gorfodi sifil ac ardal gorfodi arbennig

**2.** Mae Gweinidogion Cymru yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio; a

(b) ardal gorfodi arbennig.

(**1**) 2004 p.18.

(**2**) Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn unol â hynny Gweinidogion Cymru yw'r 'appropriate national authority' o ran Cymru o dan adran 92(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru

15 Chwefror 2011

## YR ATODLEN

Erthygl 2

Ardal a ddynodir yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio ac yn ardal gorfodi arbennig

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r cyfan o Sir Powys ac eithrio'r darn o ffordd sydd wedi ei adeiladu o fewn Ardal Hyfforddi Pontsenni, Pontsenni yn Sir Powys sy'n rhedeg o gyffordd ffyrdd C45 ac L167 wrth bwynt tua 0.6 cilometr i'r dwyrain o Dirabad ac yn croesi Mynydd Bwlch-y-Groes mewn cyfeiriad de-orllewinol cyffredinol hyd at ei chyffordd â'r ffordd ddosbarth C49 wrth Church Hill wrth bwynt tua 1.85 cilometr i'r gogledd-orllewin o Lywel, pellter o tua 11.7 o gilometrau i gyd.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen yn ardal gorfodi sifil ac yn ardal gorfodi arbennig at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Effaith ymarferol y Gorchymyn yw galluogi Cyngor Sir Powys i orfodi'r gyfraith ar dramgwyddau parcio o fewn yr ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn drwy gyfundrefn cyfraith sifil, yn hytrach na gorfodi'r gyfraith gan yr heddlu neu wardeiniaid traffig yng nghyd-destun cyfraith trosedd.